



## Hanes yr Henfyd Safon Uwch (Amser Llawn)

Cynlluniwyd Safon UG OCR yn Hanes yr Henfyd i helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd hynafol ac etifeddiaeth y byd hynafol mewn cymdeithas heddiw.

Bydd Safon UG OCR yn Hanes yr Henfyd yn galluogi dysgwyr i:

- datblygu diddordeb eang a helaeth yn hanes milwrol, gwleidyddol, crefyddol a chymdeithasol y byd hynafol
- caffael gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o gyfnodau dethol yn hanes yr henfyd a defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i lunio dadleuon cydlynol gyda barn wedi'i seilio ar brawf
- deall hanes Groeg a Rhufain yng nghyd-destun eu gwareiddiadau cyfagos a'r rhyngberthynas rhwng y gwareiddiadau hyn
- archwilio a gwerthuso arwyddocâd digwyddiadau, unigolion, materion, hunaniaethau a chymdeithasau yn hanes y byd hynafol
- deall natur tystiolaeth hanesyddol o'r byd hynafol a'i phrinder er mwyn adeiladu dealltwriaeth o gyfnodau hanesyddol a astudiwyd a'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi a gwerthuso'r dystiolaeth. Dylai myfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut y cafodd y gorffennol hynafol ei gynrychioli gan haneswyr hynafol
- datblygu dealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol megis newid, parhad, achosiaeth, canlyniad ac arwyddocâd yng nghyd-destun y cyfnodau hanesyddol a astudiwyd
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddadleuon hanesyddol perthnasol a sut y gellir ymchwilio i'r rhain
- datblygu'r gallu i wneud cysylltiadau a thynnu cymariaethau rhwng gwahanol gyfnodau, unigolion, materion, hunaniaethau a chymdeithasau.

Bydd angen i ddysgwyr sy'n astudio'r Safon UG/U yn Hanes yr Henfyd astudio digwyddiadau, unigolion, cymdeithasau, datblygiadau a materion arwyddocaol o fewn eu cyd-destun hanesyddol eang gan ddangos ehanger drwy'r astudiaeth

**Cod UCAS:** EHPT03ANCI

### Gofynion Mynediad

Isafswm o 6 TGAU graddau C yn cynnwys gradd C yn Saesneg Iaith a gradd C mewn pwnc TGAU cysylltiedig.

Coleg Afan	<b>01639 648200</b>	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	<b>01686 614400</b>	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	<b>01639 648000</b>	Neath College
Coleg Y Drenewydd	<b>01686 614200</b>	Newtown College



## Rhagolygon Gyrfa

Mae Safon U OCR yn Hanes yr Henfyd yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Hanes Modern, Y Gyfraith, Saesneg, Gwleidyddiaeth, Hanes yr Henfyd neu gyrsiau Clasuron eraill mewn addysg bellach ac uwch.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd dysgwyr yn astudio DWY astudiaeth cyfnod. Bydd yr astudiaethau cyfnod yn galluogi dysgwyr i astudio naratif sy'n datblygu o rychwant sylweddol o hanes Groeg a Rhufain dros o leiaf 75 mlynedd. Bydd hyd y cyfnod astudio yn annog dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb a'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau, unigolion, datblygiadau a materion pwysig, ac yn darparu ystod gronolegol ddigonol i allu rhoi sylwadau ar newid, yn y tymor byr a'r tymor hir.

Mae Eifen 01 yn astudiaeth o gyfnod Groegaidd seiliedig ar ffynhonnell yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng dinas-daleithiau Groeg a hefyd y berthynas rhwng dinas-daleithiau Groeg ac Ymerodraeth Persia yn y cyfnod 492-404 BC.

Mae Eifen 02 yn astudiaeth o gyfnod Rhufeinig seiliedig ar ffynhonnell yn canolbwyntio ar frenhinlin Iwlio-Clawdiaidd, o 31 BC i AD 68.

## Asesiad

Hanes yr Henfyd Teitl Math o asesiad

01 Y berthynas rhwng taleithiau Groeg a rhwng taleithiau Groeg a rhai nad oeddent yn Roegaidd, BC 492- 404

Asesiad Allanol - 1 awr 30 munud

02 Yr Ymerawdwr Iwlio-Clawdiaidd, BC-AD 31 BC - AD 68

Asesiad Allanol - 1 awr 30 munud

## DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

## HYD Y CWRS

2 years

Coleg Afan	<b>01639 648200</b>	Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog	<b>01686 614400</b>	Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd	<b>01639 648000</b>	Neath College
Coleg Y Drenewydd	<b>01686 614200</b>	Newtown College